Dydd Gŵyl Dewi 2026

# Gwna’r Pethau Bychain.



#PethauBychain
#RandomActsofWelshness

# Dydd Gŵyl Dewi: 01 Mawrth. Ein diwrnod cenedlaethol i ddathlu ein nawddsant trwy ‘wneud y pethau bychain’ sy’n gwneud gwahaniaeth mawr.

Ymuna â ni, trwy wneud #PethauBychain hwyliog a charedig sy’n gwneud ein bywydau bob dydd yn well.

# *Gwna'r* Pethau Bychain...

Dathliad hwyliog o Gymru ar y cyfryngau cymdeithasol. Neges gan Dewi - o Gymru i'r byd.

Dyma wahoddiad i ymuno â ni i ddathlu ein diwrnod cenedlaethol drwy wneud dy beth bach Cymreig dy hun, a'i rannu ar gyfryngau cymdeithasol.

**Beth yw'r Pethau Bychain?**
Ffordd i ddangos i'r byd bod Cymru yn genedl gynnes, gyfeillgar sy'n gwneud pethau da – dros ein gilydd, dros ein cymunedau a'n byd.
Mae'r Pethau Bychain yn:

— Hawdd i'w gwneud, ac yn gwneud gwahaniaeth mawr.
— Dathlu ein pobl a'n traddodiadau.
— Ac, yn fwy na dim, mae'n gwneud diwrnod rhywun ychydig yn well.

Byddwn yn rhannu syniadau am ddegau o'r #PethauBychain yn y cyfnod cyn 01 Mawrth i dy ysbrydoli.



# Pethau Bychain i dy ysbrydoli...

Cymraeg




**Dwy ffordd o ddathlu ein draig:**

**1. Chwifia'r faner**
Ble bynnag wyt ti, chwifia, gwisga, rhanna.

**2. Galwa'r ddraig**
Dere â'r Ddraig Goch yn fyw drwy AR. Sganna'r cod QR neu ewch i **draiggoch.cymru** ar dy ffôn.

**Deffra'r Ddraig**
Baner Cymru yw'r orau yn y byd. Ffaith. Cofia ddathlu'r Ddraig Goch gyda balchder, ble bynnag wyt ti.

Cymraeg




**Pryna beint i Dewi**
Mae Dafydd neu Dai hefyd yn cyfri, a Non wrth gwrs (i ddathlu mam Dewi Sant). Iechyd da!

Cymraeg




**Iawn blodyn?**
Be well i roi i rywun ar ein diwrnod cenedlaethol nag ein blodyn cenedlaethol, y cennin Pedr.

Am fwy o syniadau, cer i **Wales.com/CY/PethauBychain**

## Pethau Bychain i dy ysbrydoli...

Cymraeg




**Bwytewch a mwynhewch**
Llenwa dy fasged siopa yn dy farchnad leol a choginia wledd o dy hoff fwyd a diod Cymreig i rywun.

Cymraeg




**Gwranda!**
Mwynha'r miwsig trwy wrando ar un o restrau chwarae arbennig sydd wedi'u casglu gan Ddydd Miwsig Cymru. Beth am fynd i gig mewn un o leoliadau miwsig annibynnol Cymru?

Cymraeg




**Dip Dydd Dewi**
Ymuna â chlwb nofio lleol a cher i nofio ar doriad gwawr gan ddeffro'r gwanwyn a'r synhwyrau.


Cymraeg



**Cwtsh**
Mae'n fwy na 'hug', mae'n fwy na 'cuddle', ac mae'n fwy na geiriau ar glustog! Mae'n gynnes, yn garedig ac yn Gymreig. Rho gwtsh llawn cariad i dy deulu neu i dy anifail anwes.


Am fwy o syniadau, cer i **Wales.com/CY/PethauBychain**


# Enghreifftiau o Ddydd Gŵyl Dewi 2026









# O’n bro i’r byd - helpa ni i droi’r byd yn Gymreig ar Ddydd Gŵyl Dewi, gyda 24 awr o Bethau Bychain.

**Ble bynnag wyt ti yn y byd, ymuna â ni i ddathlu ein diwrnod cenedlaethol.**

**O 23 Chwefror.**

**1. Dewisa!**
Tynna lun neu fideo o dy hun yn gwneud y #PethauBychain yn barod ar gyfer y diwrnod mawr. Rhanna dy gynlluniau gyda ni – **lowri.jones37@gov.wales**

**2. Bloeddia!**
Rhanna’r ddogfen yma gyda ffrindiau, cydweithwyr a sefydliadau gan annog mwy i gymryd rhan

**3. Rhanna!**
Cadwa lygad ar ein hymgyrch ar **@cymraeg** a **@walesdotcom** ar draws y cyfryngau cymdeithasol — a chofia hoffi a rhannu.

**Ar 01 Mawrth**

**4.Postia!**
Rhanna’r **#PethauBychain** ar 01 Mawrth a thagio **@cymraeg** a **@walesdotcom** drwy’r dydd.

# Diolch.